Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

**Cofnodion / Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd 30 Ionawr 2024**

Yn bresennol: Dr Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Martin Price (MP)
John Graystone (JG)
Dr Debbie Nash (DN)
Katie Phillips (KPH)
Yusuf Ibrahim (YI)
Paul Marshall (PM)
Meleri Light (ML) (Ymunodd am 10:30am)
Dr Chris Lewis (CL) (Ymunodd am 1:15pm)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. *Croeso, cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol*

Agorodd SD y sesiwn a chroesawodd bawb i gyfarfod wyneb yn wyneb y Bwrdd heddiw. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mike James (MJ).

Nododd SD na fyddai adroddiad gan y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg heddiw gan fod y cyfarfod ym mis Ionawr wedi'i ohirio tan 1 Mawrth.

Nid oedd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ac nid oedd unrhyw roddion i'w hadrodd.

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir a gwir.
Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu:
Cam Gweithredu 228: byddai'r cam hwn ynghylch y rhaglen ardystio'n cael ei ohirio tan i MJ ddychwelyd.
Cam Gweithredu 229: Roedd Mark Isherwood wedi bod yn edrych ar wahanol gynlluniau gwobrwyo ac wedi llunio rhestr i'w hystyried gan TE. Dywedodd PM y gall hyd yn oed y broses o wneud cais fod yn ymarfer defnyddiol ynddo'i hun weithiau.

Llongyfarchodd SD y tîm ar y gynhadledd Llesiant lwyddiannus iawn a gynhaliwyd ar-lein. Llongyfarchwyd TE hefyd ar ddod yn aelod cyswllt cenedlaethol anrhydeddus o'r Ganolfan Ymchwil Ryngwladol i Arweinyddiaeth mewn Addysg (CIRLE) ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn ogystal â gwella proffil y sefydliad, dylai hyn roi mwy o gyfleoedd i TE weithio yn y gofod rhyngwladol.

*2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol*

Rhoddodd MP drosolwg o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod y pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol ar 18 Ionawr. Nid oedd unrhyw broblemau staffio ac nid oedd absenoldeb salwch yn achosi unrhyw bryder. Mae'r model gweithio hybrid yn parhau i fod yn llwyddiant a chafwyd mwy o gyfleoedd i weithio wyneb yn wyneb. Penderfynwyd ymestyn y brydles ar yr Uned am 12 mis arall. Roedd trafodaethau diddorol wedi digwydd am y gwaith gwrth-hiliaeth o fewn yr Academi Arweinyddiaeth.

Mae'r gyllideb ar y trywydd iawn ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd gyda rhywfaint o danwariant a fydd yn cael ei gysoni erbyn diwedd mis Mawrth. Mae KP yn hyderus y bydd y gwariant o fewn y 2% i'w gario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd Meleri Light (ML), Pennaeth y Gymraeg, wedi rhoi cyflwyniad ar y polisi Iaith Gymraeg newydd a'r pwyllgor wedi ei ganmol fel un clir a chryno iawn . Bydd y pwyllgor yn argymell y polisi hwn i'r Bwrdd i'w gymeradwyo yn eitem 3 yr agenda.

Roedd JG yn falch o glywed bod cyllideb ddigyfnewid wedi'i chadarnhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Ystyriwyd mai dyma'r canlyniad gorau yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Holodd DN a allai'r newidiadau gwleidyddol posibl effeithio ar yr Academi Arweinyddiaeth. Tynnodd TE sylw at yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gweinidog y Gymraeg, a nododd y nifer cynyddol o brosiectau sydd ar y gweill. Roedd TE a SD yn teimlo bod gwerth gwaith yr Academi Arweinyddiaeth yn derbyn cydnabyddiaeth gynyddol ac roeddynt yn gadarnhaol am y ffordd ymlaen.

Amlinellodd PM bryderon ynghylch recriwtio myfyrwyr TAR yng Nghymru – tra bod niferoedd ysgolion cynradd yn rhesymol, roedd niferoedd ysgolion uwchradd yn eithaf isel. Gwerthfawrogodd PM fod hyn yn rhan o ddarn systemig mwy ar arweinyddiaeth. Tynnodd TE sylw at bwysigrwydd hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg ar bob cyfle i annog pobl ifanc i ymuno â'r proffesiwn ac ymgyrraedd at rolau arwain. Gwnaeth JG sylw bod yna lawer o gyhoeddusrwydd negyddol wedi bod yn ddiweddar ynghylch gweithredu diwydiannol ac ymddygiad disgyblion a bod angen mynd i'r afael â hyn gydag ymgyrchoedd hyrwyddo cadarnhaol. Bydd TE yn parhau i wahodd y Gweinidog i gynadleddau yn y dyfodol. Awgrymodd SD wahodd David Richards o PBU i gyfarfod Bwrdd yn y dyfodol.

Diolchodd SD i MP am ei grynodeb a oedd wedi sbarduno trafodaethau defnyddiol.

*3. Y Gymraeg mewn Addysg*

Rhoddodd ML gyflwyniad i'r Bwrdd ar y Gymraeg mewn Addysg, gan ddechrau gyda'r polisi Iaith Gymraeg newydd ar gyfer yr Academi Arweinyddiaeth a safonau'r Gymraeg. Er nad yw'r Academi Arweinyddiaeth wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio eto, ystyriwyd ei fod yn arfer da cynnal archwiliad er mwyn bod yn barod. Mae'r

DRAFT

meysydd canlynol wedi cael eu hystyried: darparu gwasanaethau, llunio polisi, gweithredol, hyrwyddo a chadw cofnodion.

O ran cadw cofnodion, nodwyd nifer y cwynion a dderbyniwyd ynglŷn â'r Gymraeg. Penderfynwyd mabwysiadu'r polisi 'un traean' o ddewis iaith ar ôl siarad â sefydliadau tebyg eraill. Mae hyn yn golygu, os bydd mwy na thraean o fynychwyr y cyfarfod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, bydd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu darparu. Mae cronfa ddata'r Academi Arweinyddiaeth wedi'i diweddaru gyda dewisiadau iaith ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid allweddol ac mae canllawiau ymarferol ynghylch gohebiaeth yn cael eu paratoi ar gyfer staff a Chymdeithion hefyd. Mae gweithgareddau hyrwyddo'n cynnwys dathlu dyddiau diwylliannol fel Dydd Gŵyl Dewi. Mae ML wedi cyflwyno sesiwn siarad Cymraeg anffurfiol hefyd ar ddydd Iau o'r enw Paned a Sgwrs. Byddai croeso i aelodau'r Bwrdd ymuno; bydd ML yn cylchredeg dolen.

Siaradodd ML am y cynllun Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd oedd yn cynnwys gwahanol randdeiliaid gan gynnwys yr Academi Arweinyddiaeth. Y nod yw sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd dysgu yn y cwricwlwm. Y bwriad yw cynyddu nifer y siaradwyr ac ymarferwyr Cymraeg mewn ysgolion a rhoi'r sgiliau i bob arweinydd i ddatblygu'r Gymraeg. Roedd ML yn gadarnhaol ynghylch y rhaglen bresennol sy'n ceisio annog athrawon i ddychwelyd i Gymru. Mae'r cynllun newydd yn targedu athrawon yn eu pum mlynedd gyntaf o addysgu.

Cyfeiriodd ML at gyllid arloesi a roddwyd i'r Consortia Rhanbarthol cyn y pandemig i gryfhau darpariaeth y Gymraeg. Dechreuodd hyn fel rhaglen wyneb yn wyneb yn canolbwyntio ar hyrwyddo hunaniaeth Gymreig a diwylliant Cymru. Ers hynny mae'r rhaglen hon wedi'i chyflwyno i'w chymeradwyo a'r gobaith yw y bydd yn dod yn fodel cenedlaethol ar gyfer cefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg i hyrwyddo'r Gymraeg.

Cyfeiriodd ML at gomisiwn Carfan 2 a'r pecyn cymorth a ddeilliodd o hynny ar gyfer hunanwerthuso darpariaeth Gymraeg sy'n cael ei dreialu mewn saith ysgol ar hyn o bryd. Mae'r cwestiynau'n edrych ar arweinyddiaeth, tegwch a'r cwricwlwm, a dylid defnyddio'r pecyn cymorth ochr yn ochr â'r adnodd cenedlaethol. Mae gan ML gyfarfod gydag ysgolion yr wythnos nesaf i drafod adborth cychwynnol ac yna bydd yn ystyried yr effaith a'r rhwystrau i weithredu.

Amlinellodd ML ofynion y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y bydd angen i bob awdurdod lleol eu cynhyrchu. Un gofyniad fydd y prosiect E-Ysgol sy'n sicrhau bod darpariaeth adolygu'n cyrraedd ysgolion gwledig trwy gyfuniad o sesiynau dysgu cyfunol a sesiynau adolygu ar-lein.

Rhestrodd ML y partneriaethau yr ymrwymwyd iddynt ers mis Medi gyda sefydliadau fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, CYDAG, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Estyn. Mae yna gynllun sabothol hefyd lle mae athrawon yn dod allan o'r ysgol am dri mis i ddysgu Cymraeg ac yna'n dychwelyd i'w swyddi addysgu.

Rhannodd ML ei hymholiad am berfformiad, gwella a datblygu â'r bwrdd sy'n gofyn y cwestiwn i ba raddau y mae ysgol cyfrwng Cymraeg yn creu siaradwyr Cymraeg hyderus a hefyd effaith arweinyddiaeth yn yr ysgolion hyn. Mae ML yn bwriadu gweithio'n agos gydag ysgol cyfrwng Cymraeg, ysgol cyfrwng Saesneg ac ysgol iaith ddeuol i ystyried y materion hyn.

Ymatebodd yr Academi Arweinyddiaeth a'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad papur gwyn ar gyfer Bil Addysg y Gymraeg ym mis Mehefin 2023, gan dynnu sylw at bryderon ynghylch ysgolion arbennig a chategoreiddio hefyd. Nod y Bil yw sefydlu a gweithredu un continwwm o sgiliau Cymraeg fel bod gan ddysgwyr, athrawon a rhieni ddealltwriaeth gyffredin o'r daith tuag at ddysgu'r Gymraeg a'r canlyniadau disgwyliedig. Cydnabuwyd bod y targed i bob disgybl fod ar lefel B2 yn y Gymraeg yn uchelgeisiol iawn.

Gofynnodd JG am weld ymateb yr Academi Arweinyddiaeth i'r ymgynghoriad. Bydd ML yn ei gylchredeg i aelodau'r Bwrdd. Roedd JG yn holi hefyd a oes dosbarthiadau Cymraeg i'w cael am ddim. Cadarnhaodd ML fod y Ganolfan Genedlaethol wedi cyflwyno rhywfaint o ddarpariaeth am ddim ac mae Cymraeg Gwaith yn darparu gwersi am ddim i bobl ifanc 16-25 oed. Bydd ML yn edrych i weld a oes unrhyw gyfleoedd dysgu am ddim eraill. Ar hyn o bryd mae merch PM yn dysgu Cymraeg drwy Duo Lingo ac yn meddwl tybed a oes unrhyw ffordd o gysylltu dysgwyr Cymraeg y tu allan i Gymru. Cadarnhaodd ML fod y Gweinidog wedi cynnwys defnydd iaith y tu allan i Gymru yn ei adroddiad ar Cymraeg 2050.

Dywedodd SD fod mentora i'w weld yn ymddangos yn uchel iawn mewn cynlluniau a mynegodd bryder hefyd ein bod yn colli siaradwyr Cymraeg i rolau y tu allan i Gymru. Cytunodd ML ond tynnodd sylw hefyd at yr angen i ddarparu eglurder wrth friffio athrawon newydd gymhwyso a pheidio â phaentio darlun rhy gadarnhaol.

Roedd YI yn teimlo bod y cyflwyniad a'r trafodaethau dilynol yn ddiddorol iawn. Gan fod y polisi wedi'i anelu'n bennaf at ysgolion, holodd a oedd unrhyw gynlluniau i edrych ar hyn o safbwynt AB a thynnu sylw at fentora a throsglwyddo sgiliau. Atebodd ML fod cynllun cenedlaethol ar gyfer fframwaith sgiliau Cymraeg wedi cael ei nodi gan gyflogwyr fel y ffordd ymlaen. Cytunodd ML fod gwaith i'w wneud heb os gyda'r sector addysg bellach ac ieuenctid a'r gobaith oedd cael y sectorau hyn i gymryd rhan yn y gynhadledd sydd ar ddod yn Llandudno ar 1 Mai.

Roedd JG yn teimlo bod y Bil arfaethedig yn dal i ganolbwyntio gormod ar ysgolion ac y dylai fod ganddo ddull hirdymor llawer ehangach mwy uchelgeisiol. Nododd ML mai dyma farn y grŵp rhanddeiliaid hefyd.

Siaradodd YI am y tueddiadau i fewnoli'r Gymraeg os yn gweithio i gyflogwr cyfryngau Saesneg. Cytunodd TE ac amlygodd yr effaith mae grwpiau ffrindiau a dewisiadau bywyd a wneir yn ei chael o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Cyfeiriodd TE hefyd at anawsterau astudio/gweithio ym maes gwyddoniaeth neu ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg gan y byddai'r rhan fwyaf o ymchwil wedi'i

DRAFT

chyhoeddi yn Saesneg. Ar yr ochr gadarnhaol, mae cyfryngau Cymru wedi ffrwydro dros y blynyddoedd diwethaf ac mae llawer mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg weithio mewn cyrff sector cyhoeddus.

Diolchodd SD i ML am gyflwyniad diddorol iawn a oedd wedi ymdrin ag amrywiaeth o bynciau ac wedi ysbrydoli pwyntiau trafod defnyddiol iawn a gwerth chweil. Bydd ML yn dosbarthu sleidiau i aelodau'r Bwrdd yn ôl y gofyn.

**Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo a mabwysiadu'r polisi Iaith Gymraeg newydd**.

4. *Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol*

Dechreuodd TE drwy ddweud bod y rhaglen chwarterol newydd o gyfarfodydd Bwrdd yn cyd-fynd yn agosach â monitro LlC sy'n osgoi dyblygu adroddiadau. Yna amlinellodd gynnydd drwy'r meysydd ffrwd gwaith fel a ganlyn:

*1.1 Sicrhau Ansawdd* – mae'r broses ardystio'n parhau i ddenu darparwyr i gyflwyno eu darpariaeth. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chymeradwyo'n llwyddiannus drwy'r broses gyflym.

Mae galwad agored yn dal i fod ar waith ac mae'r Academi Arweinyddiaeth yn ymwybodol bod llawer o ddarpariaeth arweinyddiaeth o hyd nad yw'n cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo, a hynny gan ddarparwyr preifat yn bennaf. Mae Llywodraeth Cymru'n dod yn fwy parod i dderbyn manteision ardystiad ac yn sefydlu proses debyg ar gyfer darpariaeth heblaw arweinyddiaeth. Y gobaith felly yw y bydd cyfarwyddeb i ysgolion i ddefnyddio darpariaeth gymeradwy yn unig yn y dyfodol.

Gofynnodd DN a yw darpariaethau nad ydynt yn cael eu cymeradwyo yn cael eu hailgyflwyno'n gyffredinol? Roedd TE o'r farn bod canrannau ailgyflwyno'n eithaf uchel ond bydd yn gofyn i Mark Isherwood gadarnhau. Cadarnhaodd TE fod tîm Mark yn gweithio'n agos gyda darparwyr yn rhoi cyngor iddynt, gan sicrhau eu bod yn ailgyflwyno ac yn eu llywio ar hyd y llwybr arloesi lle bo hynny'n briodol.

Mewn ymateb i ymholiad gan JG, cadarnhaodd TE y gellid tynnu cymeradwyaeth oddi wrth ddarparwyr os ydynt yn methu â chyflawni. Mae system fonitro drylwyr ar waith ac argymhellion dilynol i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

*1.2 Arloesi* – Eglurodd TE mai'r pot o arian a ddyrannwyd i gyllid arloesi yn y gyllideb sy'n darparu'r unig le ar gyfer hyblygrwydd. Dylai'r 'glustog' hon fod yn ddefnyddiol iawn wrth gefnogi Cymdeithion i ariannu prosiectau wrth i'r Ffederasiwn Cymdeithion dyfu.

*1.3 Arweinyddiaeth System* – Mae Profiad Dysgu 3 ar gyfer carfan 6 yn digwydd yfory lle bydd eu pynciau comisiwn yn cael eu cyflwyno iddynt. Am y tro cyntaf bydd y garfan yn cyd-lunio eu cwestiwn(cwestiynau) gyda'r Academi Arweinyddiaeth. Y pynciau a ddewiswyd yw Gwrth-hiliaeth, gan fod dod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030 yn darged cenedlaethol, a Hunanwerthuso, gan fod y maes hwn wedi'i amlygu yn adroddiad Blynyddol Estyn fel maes sy'n peri pryder.

DRAFT

Mae carfan 5 yn gweithio ar eu comisiynau ac ar ben ffordd i gyflwyno eu hallbynnau ar gyfer craffu ym mis Ebrill. Mae Ffederasiwn y Cymdeithion yn gweithio mewn 3 grŵp ar 3 phrosiect ar wahân bellach sy'n edrych ar y meysydd canlynol: protocolau rhieni, llesiant ac ysgolion hunanwella. Gofynnodd PM a allai'r prosiect protocol rhieni fod yn ddadleuol. Amlygodd TE y materion sy'n wynebu ysgolion yn y maes hwn sydd wedi gwaethygu yn dilyn y pandemig. Mae TE yn aelod o'r tasglu presenoldeb bellach lle trafodir ymgyrchoedd a dargedir at rieni i sicrhau bod plant yn mynychu'r ysgol. Bydd y Ffederasiwn Cymdeithion yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn ystod eu prosiectau a bydd TE yn goruchwylio'r prosiectau.

*1.4 Datblygu Arweinyddiaeth* – Amlinellodd TE waith diweddar gyda'r sector ieuenctid gwirfoddol lle mae'r ymgynghorydd Emma Chivers wedi gwneud cynnydd da wrth ymgysylltu â phartneriaid. Denodd y gynhadledd arweinyddiaeth (wyneb yn wyneb) 161 o gynadleddwyr, gyda 45 o'r rhain yn newydd. Roedd TE yn falch o nodi bod y digwyddiad hwn wedi arwain at 34 o danysgrifwyr newydd i'r cylchlythyr. Cafwyd cynrychiolaeth dda gan bob Awdurdod Lleol gan gynnwys y rhai o'r Gogledd. Y sector ysgolion oedd â'r gynrychiolaeth uchaf ac yna'r haen ganol, PCET a'r sector gwaith ieuenctid.

Denodd y bedwaredd gynhadledd llesiant ar-lein 115 o fynychwyr a nodwyd bod pobl yn picio i mewn ac allan ohoni yn ystod y dydd. Unwaith eto roedd cynrychiolaeth dda o bob sector gydag ysgolion yn gyntaf yna'r haen ganol. Roedd mynychwyr o SAUau, PCET, y sector gwaith ieuenctid ac Awdurdodau Lleol hefyd. Roedd gan y gynhadledd gynrychiolaeth gan bob Awdurdod Lleol ynghyd â chynrychiolwyr o Iwerddon (fel rhan o'r Consortia Tair Gwlad). Hoffai Nia Miles gynnal y gynhadledd hon wyneb yn wyneb yn y dyfodol a fyddai'n dda i lesiant.

Roedd JG wedi mynychu'r ddwy gynhadledd ac wedi mwynhau'r fformat wyneb yn wyneb. Holodd JG a oedd yn rhaid i'r Academi Arweinyddiaeth dalu am fynychwyr sy'n canslo. Cadarnhaodd TE eu bod yn archebu ychydig llai o leoedd gan amlaf rhag ofn y bydd rhai'n canslo ac weithiau'n gallu llenwi llefydd munud olaf o restrau aros.

*2.1 Adnoddau* – roedd ML wedi siarad am adnoddau Cymraeg eisoes ac roedd pawb yn cytuno ei bod yn gwneud gwaith gwych. Dywedodd SD fod ML eisoes yn gwneud llawer mwy nag a ragwelwyd, a'r gobaith oedd y byddai'r cyllid ar gyfer y swydd hon yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod o ddwy flynedd.

Roedd llawer o waith wedi'i wneud gyda'r adnodd addysgeg. Roedd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan secondai a oedd yn gweithio ar draws Cymru. Mae'r Athro Ken Jones yn cyflwyno'r digwyddiad Datgloi Arweinyddiaeth nesaf a drefnwyd ar gyfer 7 Mawrth.

*2.2 Mewnwelediad* – Mae'r Grŵp Cynghori Gweinidogol yn cyfarfod yn fisol gyda chyfarfod wyneb yn wyneb wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth. Dywedwyd y byddai'n well canslo'r cyfarfod hwn oherwydd y posibilrwydd y bydd Gweinidog newydd yn cael ei benodi felly bydd y cyfarfod wyneb yn wyneb yn symud i fis Mai.

Mae'r Athro Carol Campbell wedi cwblhau'r gwaith ar ymarfer myfyriol i arweinwyr ac mae hyn wedi'i gomisiynu mewn partneriaeth ag CGA. Nid yw'r papur wedi'i gyfieithu

hyd yma gan fod CGA wedi gofyn am rai newidiadau. Yna bydd angen ystyried y ffordd orau o ddosbarthu'r papur. Mae'r mewnwelediad ar waith ieuenctid ar y trywydd iawn i'w gwblhau.

Roedd TE yn falch o nodi bod cyhoeddiadau eraill yn cyfeirio at gomisiwn ADY Carfan 3 bellach. Mewn ymateb i gais gan Gymdeithion ynglŷn â sut mae eu comisiynau'n dylanwadu ar bolisi, roedd Kevin Palmer wedi mynd drwy'r comisiynau ac wedi amlinellu'r cysylltiadau.

*2.3 Llesiant* – Mae manylion am y gynhadledd Lesiant yn 1.4 uchod. Mae grwpiau gweithio ac ymgynghori llesiant yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd.

Cyflwynwyd dau bapur i Belmas ac mae'r ddau wedi eu derbyn: Llesiant a Recriwtio a Chadw. Nia Miles fydd yn arwain ar y papur llesiant gyda chymorth un o'r Cymdeithion.

*2.4 Cynllunio'r Gweithlu Strategol* – Bydd TE a CL yn arwain ar y papur recriwtio a chadw yn BELMAS . Bydd yn cael ei ledaenu'n ehangach ar ôl i adroddiad NIESR gael ei gyflwyno i LlC.

*3.1 Llywodraethu Effeithiol* – Mae cynllun hyfforddi'r Bwrdd wedi dechrau gyda'r sesiwn heddiw ar y Gymraeg mewn Addysg a bydd y sesiwn nesaf a gynlluniwyd yn edrych ar y Sector Gwaith Ieuenctid dan arweiniad Emma Chivers yng nghyfarfod mis Ebrill.

Roedd TE yn falch iawn bod YI wedi'i benodi'n Gadeirydd y grŵp llywio Gwrth-Hiliaeth a bydd TE yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf ar y gwaith a wnaed hyd yma. Pwysleisiodd TE bwysigrwydd cael llinell sylfaen glir i fapio cynnydd y sefydliad.

*3.2 Swyddogaeth Weithredol* - Roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo'r polisi Iaith Gymraeg newydd fel y'i cyflwynwyd gan ML heddiw. Cadarnhaodd TE fod yr Academi Arweinyddiaeth wedi ennill ardystiad Lefel 1 IASME - mae hyn yn dilyn ymlaen o Cyber Essentials plus ac mae'n ofyniad yn y cytundeb fframwaith gyda LlC.

Roedd archwiliadau mewnol yn canolbwyntio ar GDPR a sicrhau data ac roedd TE yn falch o nodi bod yr Academi Arweinyddiaeth wedi derbyn 'sicrwydd rhesymol' gan y ddau archwiliad. Mae pob aelod newydd o'r tîm wedi cwblhau hyfforddiant iechyd meddwl a chymorth cyntaf. Cynhelir cyfarfodydd rheoli'n rheolaidd ac adolygu risg yn rheolaidd. Mae archwiliadau dwfn yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfodydd tîm gweithredol bellach.

*3.3 Cyfathrebu a Marchnata* – Mae Charlotte Thomas, Rheolwr Marchnata, yn darparu ystadegau cyfathrebu digidol rheolaidd sy'n dangos bod ymgysylltu'n cynyddu o fis i fis. Bydd angen ehangu cynnwys y wefan er mwyn sicrhau bod yr holl waith diweddar ar y Gymraeg mewn Addysg a Gwrth-hiliaeth yn cael ei gynnwys.

*3.4 Rhanddeiliaid a Phartneriaethau* – Mae ymgysylltu partneriaeth â'r consortia rhanbarthol yn parhau. Mae TE wedi bod yn ymweld ag ysgolion ac yn siarad â Phenaethiaid sydd wedi bod yn ymarfer gwerthfawr iawn.

DRAFT

Cafodd cyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr ei ganslo oherwydd blaenoriaethau eraill ac mae'r cyfarfod hwn wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror. Pwysleisiodd TE bwysigrwydd cynnwys y grŵp hwn yn llawn a chael ystod eang o gynrychiolaeth ar draws y sectorau. Soniodd TE hefyd am werth eistedd ar grwpiau cyfeirio allanol fel grŵp y tasglu presenoldeb a'r grŵp llywio ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn dal i ymgysylltu â llywodraethwyr ysgolion er bod hyn yn llai amlwg gan fod y gweithgaredd a amlinellwyd yn y cylch gwaith wedi'i gyflawni. Cydnabuwyd y gellid gwneud llawer mwy gyda llywodraethwyr pe bai capasiti. Roedd JG yn cytuno a phwysleisiodd fod gan lywodraethwyr rôl bwysig i gefnogi ysgolion yn ogystal â chraffu.

Gwnaeth TE sylw ar yr adroddiad yn gyffredinol, gan dynnu sylw at y ffaith ei bod yn mynd yn anoddach gwahanu ffrydiau gwaith unigol. Felly gallai edrych ar waith o dan benawdau ehangach fod yn ddull gwell wrth symud ymlaen. Rhoddir ystyriaeth ynghylch sut i ailwampio'r cynllun corfforaethol i'w wneud yn fwy strategol.

Diolchodd SD i TE am adroddiad cynhwysfawr iawn fel erioed ac roedd y gwaith caled a wnaed mor effeithiol gan TE a'i thîm wedi creu argraff fawr arno.

5. *Arolwg Cenedlaethol Arweinyddiaeth*

Rhoddodd CL gyflwyniad ar arolwg arweinyddiaeth cyntaf y gweithlu addysg, a gynhelir bob dwy flynedd. Fe’i cynhaliwyd ar y cyd ag OB3 Consultancy. Ei nod oedd darganfod sut olwg sydd ar y set ddata a darganfod yn fanwl sut mae arweinwyr yn edrych ar yr Academi Arweinyddiaeth a chasglu barn ar themâu arweinyddiaeth addysgol yn gyffredinol.

Rhoddodd CL fanylion y ddwy fath o gynulleidfa sydd â diddordeb yn yr Academi Arweinyddiaeth. Y gyntaf yw'r gynulleidfa polisi, nifer hysbys o bobl. Roedd cynulleidfa'r ymarferwyr yn llawer ehangach ac nid yw llawer ohonynt yn hysbys i'r Academi Arweinyddiaeth.

Roedd yr arolwg wedi derbyn 451 o ymatebion gyda dadansoddiad o sectorau fel a ganlyn:

Ysgolion – 63%

Ôl-16 – 24%

Gwaith ieuenctid – 11%

Llywodraethwyr yn unig – 2%.

Cafwyd ymatebion gan uwch arweinwyr yn bennaf er bod rhai gan arweinwyr canol. Roedd 51% o'r ymatebion gan Benaethiaid ac roedd o leiaf 1 ymateb wedi bod gan bob ALl.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth yw eu barn am yr Academi Arweinyddiaeth gyda hanner yn dweud eu bod yn deall y pwrpas yn dda iawn neu'n weddol dda. Rhoddodd nifer fechan sylwadau gyda rhai sylwadau negyddol yn dweud bod yr Academi Arweinyddiaeth yn elitaidd neu'n 'siop siarad'. Roedd 60% o'r ymatebion yn gweld peth gwerth o leiaf i waith yr Academi Arweinyddiaeth.



DRAFT

Roedd hanner yr ymatebwyr wedi mynychu digwyddiadau ar-lein ac roedd y mwyafrif helaeth o'r farn bod y rhain yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Roedd 40% wedi darllen un neu fwy o gyhoeddiadau. Wrth gael eu holi am y tebygolrwydd o droi at yr Academi Arweinyddiaeth ar gyfer darpariaeth gymeradwy, roedd gan 40% ymwybyddiaeth o hyn ac roedd 32% wedi ei defnyddio.

Roedd YI yn credu bod hwn yn ddarn gwych o waith a gofynnodd a fyddai unrhyw drafodaethau dilynol yn cael eu cynnal. Cytunodd CL y byddai'n ddefnyddiol cynnal sesiynau grŵp ffocws i drafod rhai o'r pwyntiau a wnaed. Awgrymodd YI hefyd y dylid cael graddfa 4 pwynt ar gyfer arolygon yn y dyfodol gan fod pobl yn dewis y tir canol yn gyffredinol mewn ymatebion.

Crynhodd CL trwy ddweud ei bod yn ymddangos bod gan yr ymatebwyr hynny sydd wedi cymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir gan yr Academi Arweinyddiaeth ddealltwriaeth dda a'u bod hefyd yn gwerthfawrogi'r gwerth. Mae'n ymddangos mai'r anhawster yw ymestyn y cyrhaeddiad heb gael cynnig 'manwerthu'.

Soniodd PM am yr her wrth ddehongli'r data a phenderfynu beth sy'n dda. Hyd yn oed gyda rhai ystadegau digalon, roedd PM yn dal yn falch o weld mwyafrif o sgoriau da yn gyffredinol.

Holodd MP a oedd ymatebwyr a oedd yn benaethiaid yn dod o'r sectorau cynradd neu uwchradd yn bennaf gan ei bod yn ymddangos bod penaethiaid uwchradd yn siarad â'i gilydd yn fwy tra gall penaethiaid cynradd deimlo'n fwy ynysig. Cytunodd TE y gall ysgolion gwledig fod yn anodd eu cyrraedd ac ymgysylltu â nhw. Cytunodd CL y gallai fod yn ddefnyddiol nodi o ble roedd yr ymatebwyr yn dod i ddeall y darlun yn well.

Roedd JG o'r farn bod hwn yn arolwg gonest iawn a hoffai edrych yn agosach ar y sylwadau beirniadol. Awgrymodd JG gynnwys dolen mewn arolygon yn y dyfodol er mwyn cysylltu â phobl os oeddent yn fodlon trafod ymhellach.

Roedd TE yn credu y byddai ymgysylltu'n gwella pe bai pobl yn cael eu gwneud yn atebol am eu PL eu hunain a phe bai'r Academi Arweinyddiaeth yn gallu cynnig grantiau arweinyddiaeth broffesiynol. Holodd SD am rôl swyddogion gwella ysgolion wrth hyrwyddo'r Academi Arweinyddiaeth.

Awgrymodd MP gynnwys cwpl o gwestiynau tebyg mewn arolygon eraill fel yr arolwg ADY oedd wedi derbyn mwy o ymatebion.

Diolchodd SD i CL am ei gyflwyniad a oedd wedi darparu man cychwyn defnyddiol wrth ddeall y gynulleidfa ehangach. Y bwriad oedd ailadrodd yr ymarfer hwn yn hydref 2025/2026. Cytunwyd na fyddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu'n ehangach am y tro, ond byddant yn rhan o drafodaethau mewnol ynghylch sut y gellir hyrwyddo gwaith yr Academi Arweinyddiaeth ymhellach.

6. *Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau agenda yn y dyfodol a chau*

Bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb ddydd Gwener 26 Ebrill – lleoliad i'w gadarnhau.

Bydd eitemau agenda'r dyfodol yn cynnwys: cyflwyniad ar yr adroddiad recriwtio a chadw, diweddariad ar y gwaith gwrth-hiliaeth, cyflwyniad gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus, gwybodaeth am y fframwaith ac o bosibl Cydymaith i roi diweddariad am ei waith.

Diolchodd SD i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw a chaeodd y cyfarfod am 2.45pm.

**Log Gweithredu**

| Rhif | | Perchennog | Dyddiad cau | Statws |
|---|---|---|---|---|
| 228 | Trafod rhaglen ardystio | TE/MI/Cyfarwyddwyr | Ebrill 2024 | |
| 229 | Ystyried gwneud cais am wobr ar gyfer y rhaglen Cymdeithion | TE a'r Tîm | Ebrill 2024 | Cwblhawyd |
| 233 | Cylchredeg ymatebion Papur Gwyn a dolen i Paned a Sgwrs hefyd | ML | Chwefror 2024 | |
| 234 | Gwirio gyda MI ynghylch canrannau ailgyflwyno ardystiad | TE | Chwefror 2024 | |
| 235 | Holi am fanylion cyrsiau Cymraeg am ddim | ML | Chwefror 2024 | |

DRAFT